NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

EITEM AGENDA RHIF 6

**ADRODDIAD AR GYNNYDD PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**PWYLLGOR AR Y CYD GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**Dyddiad : 9 Rhagfyr 2009**

**Cyfnod: 1 Gorffennaf 2009 tan 20 Tachwedd 2009**

## CRYNODEB O'R PROSIECT

Caffael ateb rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer y 5 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn) a fydd yn cynorthwyo gyda gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr o dirlenwi a lleihau'r tunelledd gwastraff gweddilliol a anfonir i dirlenwi gan a sicrhau bod yr awdurdodau yn osgoi cosbau methu cyflawni'r Cynllun Lwfans Tirlenwi ac yn cwrdd â thargedau'r Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol.

## STATWS Y PROSIECT

| **Statws Cyffredinol y Prosiect** | |
|---|---|
| Gwyrdd | Cwblhawyd y drafft cyntaf o'r Achos Busnes Amlinellol ar 20 Tachwedd 2009. Prosiect ar amser. Adnoddau a chyllidebau yn unol â'r proffil. Trafodaethau ar droed gyda thirfeddiannwr safle ar gyfer lleoliad posib gorsaf trosglwyddo gwastraff i wasanaethu Conwy a Sir Ddinbych. PUK wedi dyrannu trawsweithredwr newydd (Huw Roberts) i NWRWTP i gymryd lle Hazel Nickless. Bydd Huw yn canolbwyntio ar brosiect NWRWTP a chaffael both gwastraff bwyd y gogledd ddwyrain. |

| Statws cyllideb | |
|---|---|
| Gwyrdd | Mae LICC wedi gwneud taliad dyledus o £75k tuag at wariant 2008/09. Awdurdodau partner i'w hanfonebu am £863.29 am y costau sy'n weddill. Y gwariant hyd yma yn erbyn y gyllideb ar gyfer yw 2009/10 yw £69,330. |

| Statws | **Ystyr** |
|---|---|
| Gwyrdd | Nid oes yno unrhyw broblemau; mae popeth yn symud |

| | |
|---|---|
| | ymlaen yn dda ac yn unol â'r cynllun. |
| Ambr | Mae yno fân broblemau/problemau llai sylweddol. Mae angen gweithredu mewn rhai meysydd ond mae rhannau eraill yn symud ymlaen yn foddhaol. |
| Coch | Mae yno broblemau sylweddol ac mae angen gweithredu brys a phendant. |

**Y DIWEDDARAF AR Y PROSIECT** – Gweithgareddau i'w cwblhau rhwng 1 Gorffennaf 2009 a 20 Tachwedd 2009.

| ID | **Gweithgaredd** | **Statws RAG** | **Sylwadau** | **Rhagolygon** | ID |
|---|---|---|---|---|---|
| | Penodi Rheolwr Prosiect | Gwyrdd | Ymunodd Steffan Owen â'r prosiect ar 3 Awst 2009 - | 03 Awst 09 | Cwblhawyd a chaewyd |
| | Penodi ymgynghorwyr cyfreithiol | Gwyrdd | | 30 Gorffennaf 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Penodi ymgynghorwyr ariannol | Gwyrdd | | 30 Gorffennaf 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Penodi ymgynghorwyr technegol | Gwyrdd | | 30 Gorffennaf 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Trefnu'r cyfarfod Cychwyn Prosiect | Gwyrdd | | 27 Gorffennaf 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Amcangyfrif o fewnbwn adnodd swyddog awdurdod partner i'r prosiect | Gwyrdd | | 30 Gorffennaf 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Cyfarfod cychwyn prosiect | Gwyrdd | | 20 Awst 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Cyfarfodydd Medi rhwng Grant Thornton a Swyddfeydd Cyllid gyda | Gwyrdd | Dyddiad targed 11 Medi 2009 - Gwybodaeth wedi ei anfon i aelodau'r BP a | 11 Medi 2009 | Caewyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | chefnogaeth Swyddogion Technegol | | swyddogion adran 151 yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb. | | |
| | Cysylltu â phob awdurdod partner i gadarnhau amserlen yr Achos Busnes Amlinellol a chymeradwyo'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd | Gwyrdd | Dyddiad targed 4 Medi 2009 - Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen | 4 Medi 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Diweddaru'r Cynllun Prosiect i adlewyrchu'r Achos Busnes Amlinellol a chaniatâd y Cytundeb Gweithio ar y Cyd a rhannu gyda LlCC | Gwyrdd | 8 Medi 2009 Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen | 8 Medi 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Cadarnhad ysgrifenedig gan LlCC o dderbyn grant Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol wedi'i ailbroffilio | Gwyrdd | Dyddiad targed 3 wythnos Awst 2009. Derbyniwyd cadarnhad gan LlCC. Cwblhawyd a chaewyd | 3 wythnos Awst 2009 | Cwblhawyd (derbyniwyd nodyn cadarnhad LlCC ar 24 Medi) |
| | Darparu data awdurdod partner i ymgynghorwyr technegol er mwyn galluogi datblygu model llif gwastraff | Gwyrdd | Ymgynghorwyr technegol i gysylltu â swyddogion technegol awdurdodau partner yn dilyn y cyfarfod cychwyn prosiect | 8 Medi 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Cyfarfod cychwynnol rhwng | Gwyrdd | | Wythnos 1af Medi 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ymgynghorwyr cyfreithiol a swyddogion cyfreithiol awdurdodau partner y datblygiad y Cytundeb Gweithio ar y Cyd / IAA | | | | amserlen |
| | Yr ymgynghorwyr technegol i gael cyfarwyddyd mewn perthynas â'r safleoedd a'r ffrwd gwaith cynllunio | Gwyrdd | Cyfarwyddwr Prosiect i roi cyfarwyddiadau | 20 Awst 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Datblygu model llif gwastraff i osod sylfaen i ddatblygu ateb cyfeiriol | Gwyrdd | | Medi 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |
| | Gweithdy risg | Gwyrdd | | Hydref 2009 | Cwblhawyd a chaewyd (Cynhaliwyd gweithdy risg ar 5 Tachwedd 2009) |
| | Datblygu'r ateb cyfeiriol | Gwyrdd | | Hydref 2009 | Cwblhawyd a chaewyd 20 Tachwedd 2009 |
| | Datblygu modelau fforddiadwyedd a tariff cysgodol | Gwyrdd | | Hydref 2009 | Cwblhawyd a chaewyd 20 Tachwedd 2009 |
| | Datblygu achos strategol o fewn yr Achos Busnes Amlinellol | Gwyrdd | | Hydref 2009 | Cwblhawyd a chaewyd 20 Tachwedd 2009 |
| | Datblygu achos economaidd, masnachol ac | Gwyrdd | | Hydref 2009 | Cwblhawyd a chaewyd 20 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ariannol o fewn yr Achos Busnes Amlinellol | | | | Tachwedd 2009 |
| | Gwiriad iechyd cynllunio (i gyd-fynd ag Achos Busnes Amlinellol) wedi'i gwblhau | Gwyrdd | | Hydref 2009 | Cwblhawyd a chaewyd 20 Tachwedd 2009 |
| | Drafft cyntaf terfynol Achos Busnes Amlinellol | Gwyrdd | | 20 Tachwedd 2009 | Cwblhawyd a chaewyd yn ôl yr amserlen |

**Y DIWEDDARAF AR Y PROSIECT** – Gweithgareddau i'w cwblhau rhwng 20 Tachwedd 2009 ac Ebrill 2010.

| ID | **Gweithgaredd** | **Statws RAG** | **Sylwadau** | **Rhagolygon** |
|---|---|---|---|---|
| | Mae'r gofyniad a’r dull gweithredu at yr angen posibl am gapasiti dros dro i drin gwastraff gweddilliol yn cael ei nodi fel rhan o broses ddatblygu yr Achos Busnes Amlinellol | Ambr | Roedd y gwaith i fod i gychwyn ym Medi / Hydref fel rhan o'r modelu llif gwastraff oedd i'w wneud gan yr ymgynghorwyr technegol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gyflawni ond ni chafwyd amser i drefnu cyfarfod o swyddogion technegol i gytuno ar ddull gweithredu ar y cyd tuag at y gofynion dros dro. I’w raglennu ar gyfer mis Rhagfyr 2009. | Rhagfyr 2009 |
| | Rhannu drafft gweithredol o'r Achos Busnes Amlinellol gydag Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | Ambr | Cytuno gyda LICC y bydd y drafft cyntaf yn cael ei rhannu gyda hwynt ar ôl ei gymeradwyo gan y Pwyllgor ar y Cyd a chyn ei gyflwyno’n ffurfiol yn Ebrill 2010. | Rhagfyr 2009 |
| | IAA terfynol | Ambr | Adroddiad yn yr | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | agenda | |
| | Briffio'r wasg a datganiad i'r wasg ynghylch yr Achos Busnes Amlinellol. | Gwyrdd | Mae hyn er mwyn rheoli'r Achos Busnes Amlinellol yn dod yn ddogfen gyhoeddus pan fydd y Pwyllgor ar y Cyd yn ei drafod ar 9 Rhagfyr 2009. | 14/15 Rhagfyr |
| | Cyfathrebu ac ymwneud â rhanddeiliaid o amgylch safle Glannau Dyfrdwy | Gwyrdd | Cyfarfodydd i'w cynnal gyda grwpiau cymunedol, aelodau a rhanddeiliaid eraill sy'n lleol i safle Glannau Dyfrdwy | 14/15 Rhagfyr 2009 |
| | Gwefan gyda gwybodaeth sylfaenol ar y prosiect a gweithio mewn partneriaeth i fynd yn fyw (awgrymir:- www.NWRWTP.org) | Gwyrdd | Gellir creu gwefan syml ond gwybodus er mwyn mynd yn fyw gan ddefnyddio cytundeb Marchnata a Chyfathrebu Gwastraff Ynys Môn. Bydd hyn yn helpu i grisialu annibyniaeth y prosiect. Gallai datblygiad pellach y wefan hon ffurfio rhan o unrhyw gefnogi cyfathrebu ac ymwneud ehangach sy'n cael ei gaffael ar gyfer y prosiect. | 9 Rhagfyr 2009 |
| | Cefnogaeth cyfathrebu ac ymwneud diogel parhaus i'r prosiect wrth symud i gaffael a thu hwnt. | Gwyrdd | Bydd y cytundeb yma'n cael ei dendro yn ystod Ionawr 2010 | Chwefror 2010 |
| | Arolwg barn ar draws y rhanbarth | Gwyrdd | Arolwg barn o drigolion ar draws y rhanbarth ar faterion yn ymwneud â gwastraff. Bydd gwybodaeth o'r arolwg yn bwydo i mewn i'r Strategaeth Gyfathrebu ac Ymwneud. (Nid ymgynghoriad yw | Ionawr 2010 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hyn, ond bydd yn helpu i lunio'r dull gweithredu tuag at gyfathrebu ac ymwneud). | |
| | Datblygiad pellach o'r Strategaeth Gyfathrebu ac Ymwneud | Gwyrdd | Dogfen yn cael ei datblygu gan y Grŵp Swyddogion Cyfathrebu, gan gynnwys cytundeb ar y cynllun cysylltiadau cyfryngau, protocol cyfryngau. | Mawrth 2010 |
| | Pob cymeradwyaeth awdurdod partner ar gyfer Achos Busnes Amlinellol ac IAA wedi eu cwblhau | Gwyrdd | Mae awdurdodau partner wedi amlinellu eu proses cymeradwyo, a nodi bod pob un wedi ei gwblhau erbyn dechrau Mawrth 2010. | Mawrth 2010 |
| | Llunio manyleb allbwn terfynol yn dilyn ymwneud â rhanddeiliaid yn barod ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor ar y Cyd | Gwyrdd | Angen amserlennu sesiynau amrywiol gyda rhanddeiliaid ar gyfer Chwefror 2010. | 26 Chwefror 2010 |
| | Llunio'r fframwaith arfarnu terfynol yn dilyn ymwneud â rhanddeiliaid yn barod ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor ar y Cyd | Gwyrdd | Angen amserlennu sesiynau amrywiol gyda rhanddeiliaid ar gyfer Chwefror 2010. | |
| | Dogfennaeth caffael yn barod ar gyfer cymeradwyaeth y Pwyllgor ar y Cyd | Gwyrdd | Bydd cymeradwyaeth y Pwyllgor ar y Cyd o'r dogfennau yn caniatáu i'r broses gaffael i gychwyn unwaith y mae'r Achos Busnes Amlinellol a'r IAA wedi eu cymeradwyo gan LICC. | Mai 2010 |
| | Diweddaru'r sefyllfa ar safleoedd a mynediad awdurdodau partner | Gwyrdd | Bydd y tîm y prosiect yn gweithio i gael mynediad i safleoedd | 12 Mawrth 2009 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | iddynt cyn cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i LICC. | | hyd at ddechrau'r broses gaffael. | |
| | Adolygiad porth LICC o'r prosiect (cyn dechrau'r prosiect) | Gwyrdd | Mae adolygiad Porth wedi ei drefnu gyda Tîm Porth LICC ar gyfer Mawrth 2010. | Ebrill 2010 |
| | Cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i LICC | Gwyrdd | | 9 Ebrill 2010 |
| | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol gan LICC. | Gwyrdd | Mae LICC wedi cael yr amserlen ac maent yn cynllunio ar y sail honno er mwyn sicrhau gweithredu prydlon ar yr Achos Busnes Amlinellol. | 10 Mai 2010 |
| | Cyhoeddi hysbysiad yng nghyfnodolyn swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. | Gwyrdd | | 14 Mai 2010 |

**RISGIAU ALLWEDDOL** – I'w trafod yn y cyfarfod nesaf oherwydd ystyriaeth i'r Achos Busnes Amlinellol. Gweler eitem 4 yr agenda yma.

**Diweddariad ar y Gyllideb – Ailbroffil Grant Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol LICC (Gorffennaf 2009**

| Cyfnod | Gweithgaredd (cyf at y Gyfundrefn SA Atodiad A) | Proffil wedi'i Addasu (fel cytunwyd gan LICC) Ariannu Cap £m |
|---|---|---|
| 1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2009 | Cam 1 Paratoi Prosiect | 0.075 |
| 1 Ebrill 2009 tan 31 Mawrth 2010 | Cam 2 Cynhyrchu Achos Busnes | 0.195 |
| 1 Ebrill 2010 tan 31 Mawrth 2011 | Cam 3 Gweithgareddau Caffael | 0.2 |
| 1 Ebrill 2011 tan 31 Mawrth 2012 | Cam 3 Gweithgareddau Caffael | 0.2 |

NWRWTP – RHAGAMCAN PROFFIL GWARIANT 2009/10 I 20011/12

| **Blwyddyn gwariant** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli Prosiect | £79,000 | £228,200 | £253,462 | £256,152 | £816,814 |
| Costau ymgynghorwyr (craidd) | | £154,805 | £484,656 | £147,882 | £787,343 |
| Amser ychwanegol a chost gwaith | | £515,000 | £412,500 | £492,500 | £1,420,000 |
| Dewis safle posib/ taliad prydles) | | £100,000 | £200,000 | £200,000 | £500,000 |
| **Cyfanswm costau** | £79,000 | £998,005 | £1,350,618 | £1,096,534 | £3,524,157 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian Wrth Gefn y Prosiect (10%) | | £99,801 | £135,062 | £109,653 | £352,416 |
| Cyfraniad Cronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol LICC | £75,000 | £195,000 | £200,000 | £200,000 | £670,000 |
| net | £4,316 | £902,806 | £1,285,680 | £1,006,187 | £3,198,673 |
| **Fesul awdurdod** | £863.29 | £180,561 | £257,136 | £201,237 | |
| **Gwariant hyd yma (gwirioneddol)** | | £69,330.80 | | | |

Nodiadau
Mae'r dyraniad fesul awdurdod yn 1/5 rhan o'r cyfanswm ac yn destun cadarnhad
Mae dewis safle / taliadau prydles yn ymwneud â'r gofyniad posib i ddarparu ariannu i sicrhau mynediad i'r safle(oedd) ar gyfer trin gwastraff gweddilliol neu wasanaethau trosglwyddo gwastraff
Mae costau (craidd) ymgynghorwyr yn ymwneud ag elfennau pris sefydlog / pris targed o waith ymgynghorydd
Mae amser ychwanegol a chostau gwaith yn ymwneud â gweithgareddau nad ydynt yn rhai craidd (amser a chost) - yn cynnwys cefnogaeth safle a chynllunio gan ymgynghorwyr technegol a chefnogaeth cyfathrebu
Costau Rheoli Prosiect yn cynnwys Cyfarwyddwr Prosiect, Rheolwr Prosiect, gweinyddu, lleoliad, cyfieithu a chyllid - ailgodi tâl am gostau'n ymwneud â'r prosiect.